



## Cefnogi eich plentyn i ddarllen *Encouraging your child to read*

Y tymor hwn, rydyn ni am osod ystod o heriau darllen i'n disgyblion i gwblhau adref ac yn yr ysgol. Nod yr heriau yw annog disgyblion i ddarllen ar gyfer pleser ac i fwynhau ystod eang o wahanol destunau. Mae ymchwil yn dangos bod darllen yn cefnogi lles disgyblion ac yn eu helpu nhw i lwyddo yn eu gwaith ysgol.

Bydd pob disgybl yn derbyn taflen heriau darllen gydag ystod o heriau i'w cwblhau. Bydd y disgyblion yn ennill pwyntiau am gwblhau'r heriau ac yna'n cyfnewid y pwyntiau hyn am wobrau yn yr ysgol. Does dim disgwyl i'r disgyblion gwblhau pob her. Efallai bydd rhai eisiau cwblhau yr un her dro ar ôl tro.

### **Mwynhewch a phob lwc!**

*This term, we will be setting a range of reading challenges for the pupils to complete at home and in school. The purpose of these challenges is to encourage the pupils to read for pleasure and to read a range of different genres. Research shows that reading can support well-being and help pupils perform better in a range of subjects at school, so it's really important to encourage children to read for fun.*

*Each pupil will receive a reading challenge sheet with a range of challenges to complete. Each challenge is worth points. The more challenges the pupils complete, the more points they can collect. These points can be exchanged for rewards and prizes in school. Pupils don't have to complete every challenge. Some might want to complete the same challenge over and over again. It's entirely up to them.*



*Have fun and good luck!*